

Rhif: WG35752



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Newidiadau arfaethedig i ofynion gosod targedau ysgol yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 21 Ionawr 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 8 Mawrth 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Newidiadau arfaethedig i ofynion gosod targedau ysgol yng Nghymru

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar newidiadau arfaethedig i ofynion gosod targedau ysgol yng Nghymru trwy ddiwygiadau i *Reoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011* (fel y'u diwygiwyd).

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn **8 Mawrth 2019** fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print mawr, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

[Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl](#)

[Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb \(Cymru\) 2011](#)

[Rheoliadau Addysg \(Diwygiadau sy'n Ymwneud a Gwybodaeth Aseidiadau Athrawon \(Cymru\) 2018](#)

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://beta.gov.wales/consultations>.

Manylion cyswllt

Os hoffech ragor o wybodaeth:

Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: ims@gov.wales
Ffôn: 03000 0625014



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'ch cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cefndir	5
Gosod Targedau Ysgolion	7
Beth yw'r prif faterion?	10
Cynigion	11
Ystyriaethau Eraill	13
Asesiad Effaith Integredig	13
Asesiad Effaith Rheoleiddiol	13
Rhestr o Gwestiynau'r Ymgynghoriad	14

Cefndir

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r proffesiwn addysgu, llywodraeth leol, y consortia rhanbarthol, Estyn, undebau ac arbenigwyr rhyngwladol i gynnal adolygiad sylfaenol o'r system atebolrwydd gyfredol. Mae lle gofynion gosod targedau ysgol a'r graddau y maent yn cael eu rheoli a/neu ddeddfu gan Lywodraeth Cymru o fewn trefniadau Gwerthuso a Gwella'r dyfodol yn rhan o drafodaethau ehangach a datblygu diwygiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, nid yw'r gofynion gosod targedau cyfredol yn cyd-fynd â'r trefniadau adrodd perfformiad trosiannol sydd ar fin cael eu cyflwyno mewn ysgolion.
2. Mae *Cenhadaeth ein Cenedl* yn egluro'n gweledigaeth ar gyfer system atebolrwydd addysg sy'n deg, cydlynol, cymesur, tryloyw, ac yn seiliedig ar ein gwerthoedd cyffredin ar gyfer addysg Gymraeg. I gyflawni hyn, mae'n rhaid i ni sicrhau dull cyson sy'n osgoi canlyniadau anfwriadol ac sy'n cyfrannu at godi safonau ym mhob ystafell ddosbarth ac i'n holl ddysgwyr. Mae codi safonau, lleihau'r bwch cyrhaeddiad a sicrhau system y mae gan y cyhoedd hyder ynddi ac sy'n destun balchder cenedlaethol yn ganolog i'n cynllun gweithredu.
3. Fel rhan o'n cynllun gweithredu, cytunwyd ar drefniadau gwerthuso trosiannol gydag ysgolion, er mwyn cefnogi cydweithio ar lefel fanylach rhwng ysgolion a sicrhau bod safonau'n codi ar gyfer pob dysgwr. Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau eisoes i gefnogi'r trefniadau trosiannol hyn:
4. Rydym wedi ymgynghori ar, ac yna wedi diwygio cyfres o Rheoliadau, i atal cyhoeddi data Aseidiadau Athrawon a data Profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd rheolaidd ar lefel ysgol, awdurdod lleol a rhanbarthol – mae hyn yn helpu i sicrhau bod ysgolion yn gallu canolbwyntio'n awr ar asesu'r disgybl, yn hytrach na defnyddio data fel rhan o system atebolrwydd lle mae llawer yn y fantol. Roedd y rheoliadau a ddiwygiwyd yn cynnwys Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 ("Rheoliadau Gosod Targedau". I grynhoi, mae'r newidiadau'n golygu:
 - Nad oes rhaid i gyrff llywodraethu osod targedau bellach ar gyfer disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd neu ar gyfer nifer y disgyblion sy'n gadael addysg statudol heb gymwysterau perthnasol;
 - Bod y diffiniad o "set ddata" wedi'i ddiwygio i ddileu'r cyfeiriad at "aseidiadau athrawon";
 - Nid oes rhaid i gyrff llywodraethu ystyried "setiau data" wedi'u cyflenwi gan Weinidogion Cymru ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn unig ond gallant ystyried amrywiaeth o ddata ar berfformiad disgyblion mewn aseidiadau athrawon, a fydd ar gael o ffynonellau amrywiol;
 - Bod rhaid i gyrff llywodraethu osod targedau ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11 yn hytrach na gosod targedau perfformiad ar gyfer disgyblion 16 oed yng Nghyfnod Allweddol 4.
5. Rydym yn ymgynghori ar newidiadau pellach i'r Rheoliadau Gosod Targedau'n awr er mwyn adlewyrchu newidiadau interim i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Mai 2018. Mae'r gyfres hon o fesurau perfformiad interim Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer ysgolion uwchradd wedi'u datblygu ar y cyd gyda'r sector addysg, ac yn rhoi mwy o ffocws ar godi'n dyheadau ar gyfer pob dysgwr. Byddant yn disodli cyfres 2018 o fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, yn

cynnwys mesurau trothwy Lefel 2, Lefel 2 cynhwysol¹ a Lefel 1, o 2019 ymlaen (h.y. y canlyniadau ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd diwedd blwyddyn 11 yn haf 2019).

6. Fel y soniwyd uchod, nid yw'r Rheoliadau Gosod Targedau Ysgolion presennol yn cyd-fynd â'r mesurau interim newydd (mae'r Rheoliadau hynny'n cyfeirio'n benodol at fesurau Cyfnod Allweddol 4 presennol a fydd yn cael eu disodli'n fuan). Mae angen cyflwyno newid mwy uniongyrchol ar gyfer y cyfnod interim felly, cyn gweithredu'r trefniadau Gwerthuso a Gwella newydd, ac unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen i ofynion gosod targedau statudol. Bydd hyn yn gofyn am wneud newidiadau i'r Rheoliadau Gosod Targedau.
7. Fel rhan o'n taith tuag at y trefniadau diwygiedig, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio i fynd i'r afael â'r pwysau yn y system atebolrwydd gyfredol lle mae llawer yn y fantol gyda'r bwriad o wahanu atebolrwydd o werthuso ysgolion ar gyfer gwelliant. Bydd hyn yn helpu ysgolion i nodi, ac yn galluogi ysgolion i ganolbwyntio ar ble mae angen cymorth mewn gwirionedd heb gael eu harwain gan bwysau barn allanol ar berfformiad sydd wedi'i selio'n unig ar un neu fwy o fesurau perfformiad meintiol wedi'u hystyried heb gyd-destun.
8. Rydym wedi datgan yn glir ein bod ni'n disgwyl i dargedau ysgolion gael eu defnyddio i gefnogi hunanwerthuso'n unig ac na ddylid eu cyfuno â mesur perfformiad awdurdod lleol neu ranbarthol i ddal ysgolion i gyfrif. Mae hyn wedi'i drafod gyda Chyfarwyddwyr Addysg a Rheolwyr Gyfarwyddwyr consortia.
9. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar newidiadau i ofynion gosod targedau statudol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn y tymor byr tra bod y diwygiadau, fel y cânt eu crynhoi uchod, yn cael eu cyflawni.

¹ Lefel 2 cynhwysol yw trothwy Lefel 2 yn cynnwys cymhwyster perthnasol cymeradwy mewn Cymraeg neu Saesneg Iaith Gyntaf a Mathemateg

Gosod Targedau Ysgolion

10. Mae hunanwerthuso effeithiol gan ysgolion yn gwneud cyfraniad allweddol at wella ansawdd addysg a safonau cyflawni. O'u defnyddio'n gywir, mae gosod targedau ysgol yn adnodd pwysig i wella ysgolion drwy ganolbwyntio ar sut mae ysgolion yn perfformio ar hyn o bryd, beth mwy y dylent geisio ei gyflawni a beth sy'n rhaid iddynt ei wneud i sicrhau hyn. Mae unrhyw strategaeth wella'n elwa ar y ffocws a'r cyfeiriad sy'n cael ei roi gan dargedau addas.
11. Dylai'r broses o osod targedau ddeillio o drefniadau monitro a gwerthuso trylwyr o waith yr ysgol gyfan er mwyn nodi cryfderau a gwendidau, rhagweld perfformiad posibl a chanolbwyntio ymdrech ac adnoddau ar wella deilliannau i ddysgwyr.
12. Mae targedau'n fwyaf effeithiol pan gânt eu defnyddio gyda gwaith asesu a monitro'r athrawon eu hunain o gynnydd disgyblion i lywio'r hyn sydd angen ei wneud yn yr ystafell ddosbarth. Dylid defnyddio targedau ysgol i gefnogi trefniadau hunanawerthuso'r ysgol.

Gofynion Statudol Cyfredol

13. Mae'r gofynion gosod targedau cyfredol ar ysgolion i'w gweld yn y *Rheoliadau Gosod Targedau*². Mae'r Rheoliadau Gosod Targedau yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion osod targedau ym mhob flwyddyn ysgol ar gyfer cyflawniadau sy'n ymwneud â pherfformiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a 4.
14. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid gosod targedau ar gyfer cyfnod o dair blynedd, fel a ganlyn:

Cyfnod Allweddol 2 a 3:

- **targedau terfynol** mewn cysylltiad â pherfformiad y grŵp perthnasol o ddisgyblion mewn asesiadau athrawon sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol gyfredol, sef y targedau adolygedig a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol;
- **targedau adolygedig** mewn asesiadau athrawon sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol ddilynol sef y targedau dros dro a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol ond a ddiwygir os yw'r corff llywodraethu yn barnu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny;
- **targedau dros dro** mewn asesiadau athrawon sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol nesaf ond un.

Cyfnod Allweddol 4:

- **targedau terfynol** mewn cysylltiad â pherfformiad y grŵp perthnasol o ddisgyblion mewn arholiadau sydd i'w rhoi ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1945/made/welsh>

flwyddyn ysgol gyfredol, sef y targedau adolygedig a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol;

- **targedau adolygedig** mewn arholiadau sydd i'w rhoi ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol ddilynol sef y targedau dros dro a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol ond a ddiwygir os yw'r corff llywodraethu yn barnu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny;
- **targedau dros dro** mewn arholiadau sydd i'w rhoi ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol nesaf ond un.

15. Mae'r gofynion cyfredol yn nodi bod rhaid gosod targedau ar gyfer y cyflawniadau canlynol:

Tabl 1 – Gofynion gosod Targedau Statudol ar gyfer pob Cyfnod Allweddol

Cyfnod Allweddol 2 (disgyblion Blwyddyn 6)	Cyfnod Allweddol 3 (disgyblion Blwyddyn 9)	Cyfnod Allweddol 4 (disgyblion Blwyddyn 11)
Canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu uwch ar gyfer pob pwnc craidd <i>(h.y. Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf, Mathemateg, Gwyddoniaeth)</i>	Canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu uwch ar gyfer pob pwnc craidd <i>(h.y. Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf, Mathemateg, Gwyddoniaeth)</i>	Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy lefel 1 Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy lefel 2 yn cynnwys cymhwyster perthnasol cymeradwy mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg
Y tri chyflawniad (ym mhob Cyfnod Allweddol) a osodwyd gan y corff llywodraethu yn seiliedig ar ei werthusiad o berfformiad disgyblion yr ysgol mewn asesiadau athrawon fel y nodwyd yn y data ar gyfer yr ysgol honno sy'n ymwneud â'r flwyddyn ysgol flaenorol		

16. Mae'n rhaid gosod a chyflwyno targedau i'r Awdurdod Lleol erbyn 31 Rhagfyr fan bellaf ym mhob blwyddyn ysgol. Pan na fydd yr Awdurdod Lleol yn fodlon ag unrhyw darged a gyflwynwyd gan gorff llywodraethu, gall y corff gyflwyno targed diwygiedig. Pan na fydd yr Awdurdod Lleol yn fodlon â tharged diwygiedig, gall osod y targed.

17. Ni ellir newid targedau ar ôl eu gosod heb ddod i gytundeb ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Lleol.

Cyhoeddi Gwybodaeth

18. Yn ogystal â gosod targedau perfformiad, mae'r Rheoliadau Gosod Targedau yn ei gwneud hi'n ofynnol hefyd i'r corff llywodraethu gyhoeddi'r wybodaeth ganlynol bob blwyddyn ysgol gydag adroddiad blynyddol yr ysgol:

- y targedau a osodwyd ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, 3 a 4;
- yn achos Cyfnod Allweddol 4, canran y disgyblion a gyflawnodd y targedau a osodwyd (mae'r rheoliadau'n cyfeirio hefyd at ganran y disgyblion a gyflawnodd y trothwy Lefel 2).

(ac eithrio pan oedd y grŵp perthnasol yn cynnwys deg disgybl neu lai), yn ogystal â'r wybodaeth ganlynol:

- targedau absenoldeb ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2, 3 a 4;
- cyfradd absenoldeb y flwyddyn ysgol berthnasol.

Beth yw'r prif faterion?

19. Bydd y mesurau perfformiad 'interim' newydd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn disodli cyfres 2018 o fesurau perfformiad yn cynnwys mesurau Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 cynhwysol, o 2019³ ymlaen.
20. Rydym wedi bod yn ystyried y gofynion gosod targedau ysgol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn ofalus gan nad yw'r gofynion cyfredol yn cyd-fynd â'r mesurau newydd sydd i'w gweithredu. Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrrff llywodraethu osod targedau ar gyfer cyflawni mesurau perfformiad 2018 (mesurau trothwy Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1), na fydd yn rhaid adrodd arnynt o 2019 ymlaen. Nid yw hyn yn gwneud synnwyr wrth symud ymlaen gan na fydd targedau o'r fath yn realistig nac yn fesuradwy ac felly ni fyddent yn cefnogi gwaith hunanwerthuso a gwella effeithiol. Mae'r gofynion statudol felly angen newid mwy uniongyrchol yn y cyfnod interim felly, cyn gweithredu'r trefniadau Gwerthuso a Gwella newydd.
21. Mae'r gofynion gosod targedau cyfredol yn benodol iawn, ac yn rhoi pwyslais anghymesur ar gyflawni mesurau perfformiad meintiol. Gall hyn gyfyngu ar allu ysgol i osod targedau dilys sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau gwella gwirioneddol yn eu cyd-destun unigol eu hunain. Hefyd, mae adborth gan y sector yn dangos bod angen i ysgolion fod yn fwy annibynnol. O ganlyniad, ni fyddai'n briodol disodli'r targedau penodol cyfredol ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4 gyda gofynion yr un mor benodol yn ymwneud â'r mesurau perfformiad interim, yn enwedig o ystyried eu natur dros dro.
22. Fel y nodwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i fynd i'r afael â'r pwysau yn y system atebolrwydd lle mae llawer yn y fantol gyda'r bwriad o wahanu atebolrwydd o werthuso ysgolion ar gyfer gwelliant. Mae'r gofynion gosod targedau cyfredol yn erbyn mesurau penodol, lle mae targedau a chyflawniad pob ysgol yn erbyn y targedau hyn yn cael eu gosod yn erbyn yr un mesurau ledled Cymru, wedi arwain at duedd lle mae ffigurau'n cael eu cydgrynhoi'n rhanbarthol heb eu rhoi mewn cyd-destun. Nid yw hyn yn ddefnydd effeithiol o osod targedau ac mae'n ffactor galluogi bwriadol sy'n arwain at roi mwy o bwyslais ar ddata perfformiad, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4.

³ Byddwn yn adrodd ar y mesurau ysgol 'interim' newydd yn hydref 2019 ar gyfer y rhai a fydd wedi cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 4 yn yr haf blaenorol h.y. blwyddyn 11 sy'n gorffen yn haf 2019.

Cynigion

23. Yn y cyfnod interim, cyn gweithredu'r trefniadau Gwerthuso a Gwella newydd, rydym yn bwriadu diwygio'r Rheoliadau Gosod Targedau i wneud newidiadau i'r gofynion gosod targedau ar gyrrff llywodraethu ysgolion mewn perthynas â disgyblion blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4 yn unig fel a ganlyn:

- **Dileu'r gofyniad i osod targedau mesur-benodol** - Byddai hyn yn dileu'r gofyniad statudol i gyrrff llywodraethu osod targedau ar gyfer y canran o ddisgyblion blwyddyn 11 i gyflawni: i) y trothwy Lefel 2 yn cynnwys cymhwyster perthnasol cymeradwy mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg (h.y. y Lefel 2 cynhwysol) a ii) y trothwy Lefel 1.
- **Cynyddu'r nifer gofynnol o dargedau amhenodol i'w gosod** – Byddai hyn yn cynyddu'r nifer gofynnol o dargedau amhenodol sy'n rhaid i gyrrff llywodraethu eu gosod eisoes ar gyfer disgyblion 11 yng Nghyfnod Allweddol 4 (o dri i chwech) yn seiliedig ar hunanwerthuso.

24. Bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym am y tro cyntaf yn ystod blwyddyn ysgol 2019 i 2020 ("y flwyddyn drosiannol"). Mae'n bosib felly na fydd cyrrff llywodraethu wedi gosod targedau yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol a all fod yn sail i'w targedau diwygiedig a therfynol yn ystod y flwyddyn drosiannol fel y bo'n ofynnol gan y rheoliadau (bydd y targedau blaenorol wedi'u gosod yn erbyn y mesurau perfformiad nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach). Rydym yn cynnig gwneud darpariaeth drosiannol felly a fydd yn caniatáu i'r corff llywodraethu osod targedau dros dro a thargedau terfynol ar gyfer y flwyddyn drosiannol nad ydynt yn seiliedig ar dargedau a osodwyd yn y blynyddoedd ysgol blaenorol.

25. Bydd y cynigion hyn yn dileu dyletswydd afresymol ar ysgolion i osod targedau'n erbyn mesurau na fydd yn cael eu defnyddio mwyach. Wrth wneud hynny, rydym yn symud i system o osod targedau sy'n llai cyfarwyddol a mwy hyblyg, sy'n annog ysgolion i osod targedau'n seiliedig ar hunanwerthusiad a chanolbwyntio ar flaenoriaethau gwella gwirioneddol yn eu cyd-detsun unigol eu hunain. Byddant yn manteisio ar farn broffesiynol athrawon a'u gwybodaeth am eu disgyblion, gan annog datblygu targedau dilys sy'n gwneud cyfraniad adeiladol at ddysgu disgyblion.

26. Mae'r trefniadau hyn yn cyd-fynd yn agosach â'r cyfeiriad cyffredinol tuag at sybsidiaredd a rhoi mwy o ymreolaeth i ysgolion i wella eu hunain a rheoli eu taith eu hunain. Ar yr un pryd mae'r dull sicrwydd cyfredol o fod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod Lleol i dargedau arfaethedig yn cael ei gadw.

27. Ni ddylai'r cynnig hwn roi baich ychwanegol ar y partion sy'n rhan o'r broses o osod targedau, o ystyried bod targedau penodol yn cael eu dileu. Bydd cyrrff llywodraethu yn gyfarwydd â gosod targedau amhenodol yn y ffordd hon eisoes.

28. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi'n glir ein bod ni'n disgwyl i dargedau ysgolion gael eu defnyddio i gefnogi hunanwerthuso'n unig ac na ddylid eu cyfuno â mesur perfformiad awdurdod lleol neu ranbarthol i ddal darparwyr i gyfrif. Mae hyn yn bwysau ychwanegol ar ddarparwyr a all arwain at atal y cwricwlwm mwyaf priodol rhag cael ei gynnig i unigolyn ar sail barn allanol ar berfformiad sydd ond wedi'i seilio ar ystyried un neu fwy o fesurau perfformiad meintiol heb unrhyw gyd-destun. Dylai

mwy o hyblygrwydd a'r amrywiaeth ehangach o dargedau posibl a gynigir hwn helpu i atal yr ymddygiad hwn.

29. Er mwyn gallu cyflawni'r newidiadau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer gofynion Cyfnod Allweddol 4 o fewn yr amserlen a ganiateir, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiadau eraill i'r ddeddfwriaeth. **Bydd yr holl ofynion gosod targedau cyfredol eraill yn parhau ar gyfer y cyfnod interim felly** (h.y. 2019/20 nes gweithredu'r trefniadau Gwerthuso a Gwella newydd).
30. Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mae'r gofynion yn dal i gyd-fynd â'r trefniadau asesu cyfredol. Felly, byddai'n ddoeth peidio â rhuthro i wneud newidiadau tebyg i ofynion Cyfnodau Allweddol 2 a 3 o gofio bod y cwricwlwm yn cael ei ddiwygio hefyd. Felly, **ni fwriedir gwneud unrhyw newidiadau i Gyfnodau Allweddol 2 na 3** yn y cyfnod interim hwn.
31. O ystyried y cyfyngiadau yn yr amserlenni datblygu polisi a deddfwriaethol, ni fydd hi'n bosibl gwneud y newidiadau arfaethedig cyn gofynion gosod targedau 2018/19. Mae trafodaethau wedi parhau gydag Awdurdodau Lleol a Chonsortia rhanbarthol ac rydym newydd gyhoeddi gohebiaeth, i'w rhannu ag ysgolion, sy'n darparu canllawiau ar y gofynion gosod targedau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon (2018/19) wrth i ni drosglwyddo o hen fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 i'r mesurau perfformiad interim o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth gyfredol. Bydd Consortia ac Awdurdodau Lleol yn helpu a chefnogi ysgolion uwchradd i fynd ati i weithredu'r broses o osod targedau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.

Ystyriaethau Eraill

Asesiad Effaith Integredig

32. Paratowyd Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y cynigion ac mae'r adrannau perthnasol i'w gweld yn Atodiad 1.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

33. Rhoddwyd ystyriaeth i God Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyflawni Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol drafft.

Rhestr o Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu'r gofyniad statudol ar gyrff llywodraethu ysgol i osod targedau perfformiad mesur-benodol i ddisgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4?

Byddai hyn yn dileu'r gofyniad i osod targedau penodol ar gyfer canran y disgyblion Blwyddyn 11 a ddylai gyflawni'r trothwyon Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1 yng Nghyfnod Allweddol 4.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno y dylai gofynion gosod targedau ysgol statudol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4 fod yn amhenodol, gan roi mwy o ymreolaeth i ysgolion osod targedau gwirioneddol heriol sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau gwella gwirioneddol yng nghyd-destun yr ysgol ei hun ar sail hunanwerthusiad?

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gynyddu nifer y targedau amhenodol i ddisgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4 ar sail hunanwerthusiad?

Mae gofyn i gyrff llywodraethu ysgolion osod tri tharged yn y ffordd hon eisoes.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno bod chwech yn nifer priodol o dargedau statudol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4? Os nad ydych, faint ddylid eu cael a pham?

Cwestiwn 5 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig i ofynion gosod targedau ysgol statudol yng Nghymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 6 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 7 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.